| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 140 – Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9** |
| | **beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd, Ifor ap Glyn** |

Mae capel Carmel wedi cau
a boddi mae y beddau
mewn môr o ddail tafol,
tonnau emrallt yn addo storom
rhwng ynysoedd y cerrig llonydd;
a chwifio'n fyw mae meini'r meirw…

Yma mae'r Gymraeg yn llwyd,
yn gen i gyd, angerdd angof
ganrif a hanner yn ôl
yn naddion ar y meini,
sy'n nofio fel cyrcs
ar gerrynt y gwyrddni.

Rhythu drostynt mae ffenestri Carmel,
llygaid briw sy'n llawn brain
mewn siwtiau syber,
yn gwâdd brain eraill
at nythfa'r gwatwarwyr,
a'u crawcian yn darogan glaw…

Yna'n ddisymwth, daw'r storom
i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio;
tu ôl i'r penglog rhwth o gapel
mae festri'r cefn dal ar waith,
ac mae'i ddrws yn clepio'n 'gored
gan chwythu coetsus a welingtons
yn gawod o liw rhwng meini'r meirw.
Mae'n bwrw'n gynt ac yn gynt,
ond deuant o hyd, yn *bonchos* dayglo,
eu traed bach yn daranau,
eu lleisiau'n diasbedain rhwng y beddau,
a'u Cymraeg Ysgol Feithrin fel mellt yn y llwydwyll… !

Mae'r meirw a'r heniaith yn bwydo'r tir
ac mae'r iaith yn wyrdd, fel y fynwent ir…